# PANEL GWEITHREDOL
# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**27ain Hydref 2014**

**Monitro Perfformiad**


**Gwybodaeth Atodol**

**Tanau Damweiniol mewn Anheddau**

- **Yn 2013/14 bu 479 o danau damweiniol mewn anheddau, ac roedd hyn 25 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol (cynnydd o 6%) a 3% yn uwch na'r cyfartaledd dros 3 blynedd.**

Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r tanau gychwyn yn y gegin (276), cychwynnodd 56 yn yr ystafell fyw, a 41 yn yr ystafell wely.


**Tanau Damweiniol mewn Anheddau – Yr Ystafell lle bu iddynt Gychwyn**



**<u>Tanau Damweiniol mewn Anheddau – Yr hyn a'u hachosodd</u>**

- **Roedd y rhan fwyaf o'r tanau yn gysylltiedig â choginio (160), yna roedd rhai yn gysylltiedig â bod yn ddiofal, er enghraifft bod yn ddiofal wrth gael gwared ar ddeunyddiau ysmygu neu fod yn ddiofal wrth drin cyfarpar (157).**


Roedd 120 o danau damweiniol mewn anheddau yn gysylltiedig â chyfarpar trydanol, sef 'nam ar gyfarpar neu beiriant', 'cyflenwadau tanwydd diffygiol-trydan' neu 'ceblau diffygiol ar gyfarpar neu beiriant'.



**<u>Tanau Damweiniol mewn Anheddau – Yr hyn a'u hachosodd a'r Ystafell lle bu iddynt Gychwyn</u>**

O'r 120 o danau damweiniol mewn anheddau a'r hyn a'u hachosodd sy'n cael eu nodi uchod, y 3 prif leoliad, neu'r ystafell lle cychwynnodd y tân, oedd 'y gegin' (44), 'yr ystafell wely' (16) a'r 'ystafell fyw' (12).

**<u>Tanau Damweiniol mewn Anheddau 2013/14</u>**



**Galwadau Diangen nad aethpwyd atynt**

Yn dilyn ymholiad gan un o'r aelodau yn y cyfarfod ar 21ain Gorffennaf 2014 ynglŷn â theclynnau pweru ffonau symudol fel rhywbeth sy'n gallu achosi tân, aethpwyd ati i ddadansoddi'r data sydd yn y system cofnodi digwyddiadau. Ond nid yw'r termau 'Ffonau Symudol' neu 'Declynnau Pweru' yn cael eu cydnabod yn y system fel categorïau o bethau sy'n achosi digwyddiadau, ac felly er mwyn ymateb i'r ymholiad roedd angen craffu ar hanes y digwyddiadau eu hunain gan ddefnyddio'r allweddeiriau 'charger', 'mobile charger', 'phone charger'. O wneud hyn, canfuwyd 7 digwyddiad a oedd yn gysylltiedig â theclynnau pweru batri, ond nid rhai ffonau symudol yn benodol.

**Cyfanswm y Galwadau Brys 2013-14:**

- **Yn ystod 2013-14 fe wnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 14,072 o alwadau brys. Mae hyn yn eithrio galwadau gweinyddol.**

O'r 14,072 o alwadau brys, aeth y Gwasanaeth at 6,341 neu 45%. O ran y galwadau hynny nad aethpwyd atynt, galwadau diangen oedd 3,417 ohonynt, neu 24.2%, a'r roedd y 4,314 arall, neu 30.6%, yn bennaf yn ail alwadau neu'n alwadau pryd nad oedd angen mynd atynt, er enghraifft gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd heb neb yn sownd.

